

NEIAA Patient Information – Welsh Translation

Archwiliad Cenedlaethol ar gyfer Arthritis Gwynegol Cynnar (NEIAA)

Diolch am gytuno i gymryd rhan yn yr Archwiliad Cenedlaethol ar gyfer Arthritis Gwynegol Cynnar. Mae eich cefnogaeth i'r prosiect hwn yn werthfawr iawn. Bydd yr wybodaeth a ddarparwch yn helpu timau Rheumatoleg i wella triniaeth i eraill mewn amgylchiadau tebyg yn y dyfodol.

Beth yw'r NEIAA?

Mae'r Archwiliad Cenedlaethol ar gyfer Arthritis Gwynegol Cynnar (NEIAA) wedi'i gomisiynu gan Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) ar ran GIG Lloegr a Llywodraeth Cymru.

Pwrpas yr NEIAA yw gwella ansawdd gofal i gleifion sydd â chyflyrau rheumatig. Mae'r archwiliad yn asesu'r gofal a roddir i bobl sydd â diagnosis newydd o arthritis gwynegol cynnar, clefyd meinwe cysylltiol (CTD), neu Fasgwilitis Systemig. Mae hefyd yn asesu sut mae'r cyflyrau hyn yn effeithio ar weithrediadau beunyddiol, symudedd, cwsg, lles a gallu i weithio. Mae'r tîm prosiect NEIAA yn gobeithio, trwy ofyn cwestiynau i gleifion, y caiff gwybodaeth fwy cywir ei chasglu ac y bydd cleifion yn teimlo'n fwy abl i gyfathrebu â'u clinigwyr, eu teuluoedd a'u cyflogwyr, ac i reoli eu cyflwr yn fwy effeithiol.

Pwy fydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan?

Bydd yr holl gleifion sydd dros 16 oed ac yn cael eu cyfeirio i wasanaeth rheumatoleg am y tro cyntaf gyda diagnosis o arthritis gwynegol, CTD neu Fasgwilitis Systemig yn cael eu cynnwys.

Sut caiff gwybodaeth amdanoch chi ei chasglu?

Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu gan y tîm rydych chi'n ei weld yn y clinig. Bydd aelodau eich tîm rheumatoleg yn cwblhau cwestiynau am eich cyflwr. Bydd gennych yr opsiwn i gwblhau'r holiaduron cleifion ar adeg gyfleus i chi trwy ddolen e-bost i wefan benodol ar gyfer cleifion. Fel arall, gallwch gwblhau holiaduron papur a'u dychwelyd i'ch tîm rheumatoleg.

Pa wybodaeth fydd yn cael ei chasglu amdanoch chi?

Mae'r archwiliad yn dilyn cleifion trwy'r 12 mis cyntaf o ofal mewn adrannau cleifion allanol rheumatoleg. Mae'r tîm prosiect NEIAA yn gwybod bod y cyfnod triniaeth gynnar yn hanfodol ac yn gosod sylfeini ar gyfer gofal o ansawdd uchel yn y blynyddoedd i ddod.

Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu yn y sesiwn rheumatoleg gyntaf ar gyfer yr holl gleifion sy'n gymwys i gymryd rhan. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei chasglu dri mis yn ddiweddarach ar gyfer y rheini sydd â diagnosis o arthritis gwynegol. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ateb y cwestiynau canlynol:

- Pa mor gyflym y caiff cleifion eu cyfeirio at ofal arbenigol gan feddygon teulu, a faint o amser mae'n ei gymryd i weld arbenigwr rheumatoleg?

- Pa driniaeth mae cleifion ag arthrits gwynegol yn ei derbyn yn ystod y flwyddyn gyntaf hon, ac a yw'n unol â chanllawiau cenedlaethol (NICE)?
- Pa mor dda y mae adrannau rheumatoleg wedi'u staffio, ac a oes ganddynt fynediad at wasanaethau arbenigol eraill fel ffisiotherapi, podiatreg, a seicoleg os oes angen?
- A yw cleifion yn derbyn gwybodaeth amserol am eu diagnosis newydd i'w helpu i reoli eu cyflwr yn dda?
- A all cleifion gael mynediad at gyngor yn gyflym os oes angen?

Pa gymorth sydd ar gael i chi gwblhau'r holiaduron?

Os nad ydych yn siŵr sut i ateb unrhyw gwestiynau, mae ein gwefan cleifion (www.myarthritisaudit.org.uk) yn cynnwys blychau gwybodaeth i'ch helpu, tudalen o "Cwestiynau Cyffredin," yn ogystal â rhestr o adnoddau/elusennau a allai ddarparu cymorth. Bydd eich tîm rheumatoleg hefyd yn gallu eich helpu.

Pa wybodaeth gyfrinachol a gesglir amdanoch chi a pham?

Mae'r wybodaeth gyfrinachol rydym yn ei chasglu yn cynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost, dyddiad geni, rhif GIG, cod post, a'ch rhyw. Mantais casglu'r manylion personol hyn yw ei fod yn galluogi'r tîm prosiect NEIAA i gysylltu â ffynonellau gwybodaeth eraill o fewn y GIG i ddysgu am effaith arthrits gwynegol a'i driniaethau ar gleifion.

Er mwyn cael yr wybodaeth ychwanegol hon, byddwn yn anfon eich manylion personol (rhif GIG, dyddiad geni, cod post) i NHS England/Digital Health and Care Wales. Dyma'r cyrff cenedlaethol sy'n casglu data gofal iechyd. Byddant yn defnyddio'ch manylion i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol, a fydd yn cael ei dychwelyd i'r tîm prosiect NEIAA mewn fformat dienw. Ni fydd unrhyw wybodaeth gofal iechyd a drosglwyddir i'r tîm prosiect NEIAA yn cynnwys manylion personol ac ni chaiff ei rhannu y tu allan i'r GIG nac i'r tîm prosiect NEIAA.

Beth sy'n digwydd i'ch gwybodaeth gyfrinachol?

Bydd y tîm prosiect NEIAA yn casglu'r wybodaeth hon trwy wefan ddiogel, lle bydd mynediad ar gael yn unig i aelodau'ch tîm rheumatoleg a'r tîm prosiect NEIAA. Cedwir yr wybodaeth gyfrinachol yn ddiogel yn unol â safonau a rheoliadau'r GIG a bydd yn cael ei chadw am hyd at ddeuddeg mlynedd yn ystod hyd yr archwiliad. Bydd y tîm rheumatoleg yn King's College London yn dadansoddi'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer yr archwiliad. Yn ogystal, cynhelir cronfa ddata ymchwil i ddysgu o'r wybodaeth a gesglir yn yr NEIAA. Dim ond data cleifion dienw a ryddheir at ddibenion ymchwil. Cyn rhyddhau data cleifion:

- Caiff pob gwybodaeth bersonol ei dileu
- Caiff pob dyddiad ei hamgryptio
- Caiff pob gwybodaeth am leoliad daearyddol ei dileu

- Caiff holl nodau adnabod yr ysbyty (gan gynnwys rhifau GIG) eu dileu

Bydd rhannu data gydag ymchwilwyr bob amser yn unol â'r rheoliadau cyfreithiol a llywodraethu gwybodaeth perthnasol. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch yn cael ei chyhoeddi'n gyhoeddus. Mae siart llif sy'n egluro sut caiff eich data ei chasglu a'i defnyddio ar gael ar y wefan.

Pam na ofynnwyd am eich caniatâd i ddefnyddio'ch gwybodaeth?

Mae gan NEIAA ganiatâd i gasglu nodau adnabod personol gan gleifion heb gael eu caniatâd penodol (yn ysgrifenedig). Mae'r cymorth hwn wedi'i gymeradwyo gan Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol o dan y Rheoliadau. Mae crynodeb o'r cofnod ar gyfer yr NEIAA ar gael ar gofrestr gymeradwyaethau'r Awdurdod Ymchwil Iechyd (Ref: 18/CAG/0063 & 19 CAG/0059).

Beth os nad wyf am i'm gwybodaeth gael ei chynnwys?

Mae gennych hawl i ofyn am dynnu'ch gwybodaeth bersonol o'r archwiliad ar unrhyw adeg. Cysylltwch â'ch tîm rheumatoleg i'w hysbysu nad ydych yn dymuno cael eich cynnwys. Bydd eich tîm rheumatoleg yn sicrhau na chaiff eich manylion personol eu cofnodi ar gronfa ddata'r archwiliad. Mae gennych hefyd yr hawl i godi pryderon neu wneud cwyn trwy Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy alw 0303 123 1113 neu ddilyn y ddolen: <https://ico.org.uk/concerns>

Sylwadau Terfynol

Diolch am neilltuo amser i ddarllen y llyfryn hwn. Mae'r tîm prosiect NEIAA yn hynod ddiolchgar am unrhyw gymorth y gallwch ei gyfrannu i'r archwiliad hwn. Gobeithiwn, gyda'ch cymorth, y bydd modd gwella'r gofal sydd ar gael i gleifion ag amodau rheumatig yn y dyfodol.

Gallwch ddod o hyd i'r holiadur yma: www.myarthritisaudit.org.uk/